
Atodiad 1

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Polisi Diogelu Corfforaethol

## Cadw Pobl Yn Ddiogel



**Tachwedd 2023**

| Diweddariadau, Adolygiadau a Diwygiadau | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Manylion y Newid** | **Dyddiad** |
| **1** | **Adolygu'r Polisi** | **Mai 2021** |
| **2** | **Adolygu'r Polisi** | **Tachwedd 2023** |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Tabl y Cynnwys**


| Adran | Manylion | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| 2 | Y Fframwaith Cyfreithiol a Rheoleiddiol | 4 |
| 3 | Cwmpas | 5 |
| 4 | Datganiad Polisi | 5 |
| 5 | Amcanion | 6 |
| 6 | Trefniadau Llywodraethu | 6 |
| 7 | Adnabod a chodi pryderon am oedolyn neu blentyn lle ceir amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso. | 10 |
| 8 | Cam-drin Domestig a Chyflogaeth | 12 |
| 9 | Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd | 12 |
| 10 | Sicrhau ansawdd | 13 |
| 11 | Gweithlu diogel | 14 |
| 12 | Diogelu plant mewn addysg | 17 |
| 13 | Gwasanaethau diogel | 18 |
| 14 | Cyfathrebu a'r Cyfryngau | 18 |
| 15 | Adolygu | 19 |
| | **Atodiadau** | 20 |
| A | Grŵp Diogelu Corfforaethol – Cylch Gorchwyl | 20 |
| B | Ffurflen atgyfeirio oedolyn sy'n wynebu risg | 21 |
| C | Ffurflen Atgyfeirio Plentyn sy'n Wynebu Risg | 26 |
| D | Offeryn Hunanasesu Diogelu Corfforaethol | 29 |

| | | |
|---|---|---|
| E | Diffiniadau sy'n berthnasol i ddiogelu oedolion sy’n wynebu risg gan gynnwys categorïau a dangosyddion cam-drin | 37 |
| F | Diffiniadau sy'n berthnasol i ddiogelu plant sy’n wynebu risg gan gynnwys categorïau a dangosyddion cam-drin | 39 |
| G | Achosion eraill niwed:<br>• Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE)<br>• Camfanteisio’n Droseddol ar Blant (CCE)<br>• Radicaleiddio<br>• Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)<br>• Priodas dan orfod<br>• Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl<br>• Troseddau Casineb<br>• Trais a cham-drin domestig | 41 |
| H | Cofrestr Risgiau Diogelu Corfforaethol | 47 |

## 1. Cyflwyniad

*"Ystyr diogelu yw atal ac amddiffyn plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin ac esgeuluso ac addysgu'r rheiny sydd o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a pheryglon" (Gweithdrefnau Diogelu Cymru).*

**Mae diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn gyfrifoldeb i bawb, pa un a ydynt yn gweithio i, gyda ynteu ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** (y Cyngor). Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn a bod ei ddyletswyddau statudol i ddiogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Mae gweithlu'r Cyngor yn rhannu cyfrifoldeb, ar y cyd ac yn unigol, i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Disgwylir i gyflogeion y Cyngor, Cynghorwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a phartneriaid sy'n dod ar draws plant neu oedolion sy'n wynebu risg yn ystod eu dyletswyddau ddeall eu cyfrifoldeb a, lle y bo angen, gweithredu i ddiogelu a hybu lles pobl fel y gall pawb fyw eu bywyd heb gael eu niweidio, eu cam-drin na'u hesgeuluso.

## 2. Fframwaith Cyfreithiol a Rheoleiddiol

Mae'r set ganlynol o ddeddfwriaeth a pholisïau wedi cyfrannu at ddatblygu ac wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a osodir arno drwy ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2020 i 2024
- Protocol Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), Deddf Diogelu Data 2018



Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn ymgorffori cyfrifoldebau a nodir mewn ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu.

## 3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chyfrifoldeb y Cyngor tuag at blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi fel a ganlyn:

Mae **oedolyn sy'n wynebu risg** yn oedolyn (18 oed neu drosodd) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio); ac nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Plentyn **sy'n wynebu risg** yw plentyn (o dan 18 oed) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; ac y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

At ddibenion y polisi hwn, diffinnir 'gweithlu' fel y rhai sydd wedi'u hurio gan y Cyngor, cyflogeion parhaol a thros dro (gan gynnwys staff mewn ysgolion), myfyrwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr a gyflogir gan asiantaethau cyflogaeth, contractwyr ac ymgynghorwyr**.** Mae'r polisi hwn yn cwmpasu holl weithlu'r Cyngor ac mae'n berthnasol i Gynghorwyr, gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n bersonau cysylltiedig. Er bod pob un ohonynt yn cael lefelau amrywiol o gyswllt â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg, dylai pawb fod yn ymwybodol o ddangosyddion posibl esgeuluso a cham-drin a bod yn glir ynghylch beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon.

Mae'r polisi hwn yn egluro'r disgwyliad ei bod yn ofynnol bod gan bob lleoliad eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu eu hunain sy'n unol â'r polisi hwn gan y Cyngor a gweithdrefnau a chanllawiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill. Mae hyn yn cynnwys cyrff llywodraethu'r holl ysgolion. Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod sefydliadau eraill a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau ar ei ran yn ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo llesiant oedolion a phlant.

Er mai'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n arwain gwasanaethau diogelu'r Cyngor, gan weithio gyda phartneriaid i ymateb i bryderon ynghylch pobl a allai fod yn wynebu risg o niwed, mae gan holl weithlu'r Cyngor gyfrifoldeb i ddeall eu rôl benodol ac atebolrwydd personol am ddiogelu llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

## 4. Datganiad Polisi

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth trwy ein holl wasanaethau ac yn ymroddedig i drin pob dinesydd, cyflogai ac ymwelydd â pharch, gan hefyd ddarparu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion unigol pobl.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020 - 2024 yn sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch yn parhau i fod yn gwbl greiddiol i’r ffordd y mae'r Cyngor yn cynllunio, yn darparu ac yn cyflenwi gwasanaethau pwysig i bobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Un o'n hamcanion cydraddoldeb yw sicrhau bod gan bobl yn ein cymunedau fynediad at wasanaethau sy'n eu cynorthwyo i fyw heb ofni trais neu gamdriniaeth, ac i gael eu trin â pharch.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn yr holl wasanaethau a ddarperir ganddo a'i holl weithgareddau gan sicrhau, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl a fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2023-28 yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor a sut y byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phobl leol a phartneriaid i ddarparu gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r cynllun, a elwir yn 'Cyflawni Gyda'n Gilydd', wedi'i fwriadu i fod yn haws i bobl ymgysylltu ag ef.

## 5. Amcanion

Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer diogelu y mae’r holl bolisïau ac arferion o fewn y Cyngor yn gweithredu'n gyson oddi mewn iddo. Bwriad y polisi hwn yw rhoi cymorth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd, hyrwyddo arfer da a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n golygu bod plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n wynebu risg yn ddiogel rhag niwed ac yn cael cyflawni eu potensial a byw'r bywydau y maent am eu byw.

Mae'r polisi hwn wedi'i fwriadu i fod yn alluogol; i sicrhau bod pob rhan o'r Cyngor yn deall sut i roi mesurau diogelu effeithiol ar waith. Mae hwn yn bolisi ar gyfer dull cadarnhaol, ataliol a rhagweithiol o ddiogelu. Rhaid i'r polisi gael ei berchnogi a’i weithredu ar draws y Cyngor a'i hyrwyddo gyda phartneriaid ac mewn cymunedau ehangach. Mae’r polisi wedi’i fwriadu i alluogi diwylliant cadarnhaol o fynd ati’n rhagweithiol i adnabod, lliniaru, rheoli a lleihau i’r eithaf risgiau i ddiogelwch a llesiant, gan hefyd sicrhau camau pendant ac amserol i fynd i'r afael â phryderon difrifol.

Mae disgwyl i holl weithlu'r Cyngor, gwasanaethau a gomisiynwyd, Cynghorwyr, a phartneriaid rannu amcan i helpu i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n wynebu risg yn ddiogel trwy gyfrannu at y canlynol:

- Creu a chynnal amgylchedd diogel
- Adnabod ble y ceir pryderon a gweithredu i fynd i'r afael â hwy mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- Atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy’n wynebu risg
- Sicrhau bod y gweithlu cyfan yn deall diogelu a'u hatebolrwydd a'u cyfrifoldebau.
- Hyrwyddo arferion diogel a herio arferion gwael ac anniogel.

Mae'r polisi’n galw am drefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol rhwng pawb

sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion sy’n wynebu risg.

## 6. Trefniadau Llywodraethu

Mae gan y Cyngor linellau atebolrwydd clir mewn perthynas â'i waith o ran diogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg. Mae'r canlynol yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a chyfrifoldebau:

(a) Mae gan **Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg** gyfrifoldeb statudol i ddarparu'r arweinyddiaeth strategol yn y rhanbarth mewn perthynas â diogelu dinasyddion a hybu eu llesiant. Pwrpas y Bwrdd yw arwain, cydlynu a sicrhau effeithiolrwydd ymarfer diogelu amlasiantaeth. Mae'r holl bartneriaid diogelu statudol yn aelodau o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac yn atebol iddo. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn comisiynu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ac yn goruchwylio'r broses o roi gwersi o adolygiadau ar waith. Mae'r Cyngor yn atebol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel partner statudol ac o’r herwydd mae'n rhaid iddo gyfrannu'n llawn at is-grwpiau'r Bwrdd, ffrydiau gwaith y Bwrdd a sicrhau cysondeb da â rhaglenni gwaith y Cyngor.

(b) **Bwrdd Diogelu Corfforaethol** y Cyngor

Mae'r cyfrifoldeb am fonitro effeithiolrwydd trefniadau diogelu ar draws y Cyngor yn cael ei ysgwyddo gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol sy'n adrodd wrth y Cabinet a’r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CBRhC) bob deufis o leiaf.

Bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn llunio adroddiad blynyddol ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain, y Cabinet a’r Swyddogaeth Graffu. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad diogelu'r Cyngor.

Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a bydd pob cyfarwyddiaeth yn ymrwymo i uwch aelodaeth o'r Bwrdd.

Bydd pob Gwasanaeth yn y Cyngor yn adrodd ar eu canllawiau diogelu wrth y Bwrdd Diogelu Corfforaethol trwy aelod o'r Bwrdd. Bydd cofnod ysgrifenedig o gyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cael ei gynnal.

Nodir cyfrifoldebau'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn **Atodiad A** wrth y polisi hwn.

(c) **Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

Mae deiliad y swydd yn cyflawni rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n atebol am sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy’n wynebu risg. Rhaid i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol sefydlu trefniadau effeithiol ar draws y Cyngor i sicrhau bod diogelu'n gadarn, ar lefel leol ac ar lefel partneriaeth ranbarthol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cydweithrediad o ran diogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg. Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gynghori'r Cyngor ynghylch yr

adnoddau y mae eu hangen i ddiogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg o niwed yn effeithiol. Mae rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i nodi yng Nghod Ymarfer Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd, gan gynnwys adrodd wrth y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet Arweiniol fel y bo angen.

(d) Y **Prif Weithredwr**

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy’n wynebu risg yn effeithiol ar draws y Cyngor, wedi'u hintegreiddio i waith cynllunio strategol cyffredinol yr awdurdod, ac am ddarparu arweinyddiaeth wrth ddatblygu, monitro ac adolygu trefniadau partneriaeth ar gyfer gwella deilliannau i oedolion a phlant. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei hysbysu’n gyson am yr holl faterion diogelu perthnasol trwy gyfarfodydd un-i-un gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

(e) Yr **Arweinydd**

Arweinydd y Cyngor sydd â’r cyfrifoldeb cyffredinol am ddarparu arweinyddiaeth wleidyddol i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau am ddiogelu.

(f) **Aelod Cabinet Arweiniol dros Ddiogelu**

Bydd yr Aelod Cabinet Arweiniol dros Ddiogelu yn cael cyfarfod un-i-un rheolaidd gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a bydd yn cael ei hysbysu ac yn cael diweddariadau am faterion diogelu perthnasol. Bydd yr Aelod Arweiniol yn cael ei friffio ar unrhyw achosion sensitif y gellir eu hystyried ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant neu Oedolion. Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yw'r Aelod Arweiniol dros Ddiogelu. Bydd yr Aelod Arweiniol:

- Yn gwneud yn siŵr bod goblygiadau o ran diogelu’n cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi neu wneud penderfyniadau.
- Yn gofyn cwestiynau am berfformiad ac adnoddau ar gyfer gweithgarwch diogelu.
- Yn codi proffil y maes ac yn gwneud yr awdurdod yn ymwybodol o arfer da.
- Yn ymgysylltu â chyrff allanol sy'n gweithio o fewn y fwrdeistref sirol.
- Yn ymgysylltu â swyddogion, partneriaid a Chynghorwyr eraill mewn perthynas â'r rôl.
- Yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol sydd â buddiant/rhan mewn meysydd cysylltiedig.
- Yn rhoi gwybod i'r Cyngor am gamau gweithredu

(g) **Y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CBRhC)**

Mae pob Aelod Cabinet a Phrif Swyddog yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol yn y meysydd y maent yn atebol amdanynt, sy'n bodloni'r safonau a nodir yn y polisi hwn. Mae Prif Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod goblygiadau o ran diogelu, yn rhai cadarnhaol neu negyddol, unrhyw bolisi a argymhellir yn cael eu deall a'u hesbonio'n llawn mewn adroddiadau a gyflwynir ar gyfer penderfyniad i'r Cabinet a'r Cyngor. Mae diogelu'n eitem safonol ar yr agenda yng nghyfarfodydd y CBRhC ac mae pob aelod o'r CBRhC yn gyfrifol am gyflwyno materion diogelu i'w hystyried yng nghyfarfodydd y CBRhC. Rhaid i unrhyw adroddiad a gyflwynir i'w ystyried gan aelod o'r CBRhC nodi'n glir beth yw goblygiadau'r cynnig o ran diogelu.

(h) **Prif Swyddogion**

Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phrif Swyddogion sy'n aelodau o'r CBRhC yw'r Prif Swyddogion. Mae Prif Swyddogion yn gyfrifol am roi gwybod i'r CBRhC am unrhyw bryderon difrifol ynghylch diogelu a allai godi yn eu maes gwasanaeth a sicrhau yr hysbysir yn briodol ynghylch y rhain mewn modd amserol. Bydd Prif Swyddogion yn briffio eu priod Aelodau Cabinet ar unrhyw faterion diogelu ac ar effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau diogelu yn y maes y maent yn gyfrifol amdano. Mae Prif Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithlu o fewn eu cyfarwyddiaethau wedi'u hyfforddi'n briodol i adnabod ac ymateb i bryderon diogelu a bod materion diogelu'n cael eu trafod yn rheolaidd yn eu huwch dimau rheoli.

Mae Prif Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt weithdrefnau gweithredol ar gyfer diogelu. Bydd Prif Swyddogion yn sicrhau bod Arweinwyr Diogelu Cyfarwyddiaethau (ADCau) yn cael eu henwebu ar gyfer unrhyw feysydd gwasanaeth lle ceir cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd ac mae gan yr ADC gysylltiad uniongyrchol â hwy i sicrhau bod mecanwaith hysbysu cadarn yn ei le ar gyfer hysbysu ynghylch unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu.

(i) **Cynghorwyr**

Rhaid i bob Cynghorydd ymgyfarwyddo â'r Polisi hwn a cheisio cyngor gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant os nad yw'n glir iddynt beth yw eu cyfrifoldeb am ddiogelu. Bydd y Polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei gyfleu fel rhan o'r rhaglen sefydlu a'r rhaglen hyfforddi barhaus ar gyfer pob Cynghorydd ac mae disgwyl iddynt i gyd gwblhau hyfforddiant diogelu.

(j) **Pwyllgorau Craffu**

Rôl y Pwyllgorau Craffu yw adolygu a chraffu ar benderfyniadau a llunio adroddiadau neu argymhellion mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r Cyngor, boed gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor. Eu rôl yw rhoi her adeiladol i'r Cyngor ynghylch ei weithgarwch diogelu mewn modd diduedd ac annibynnol.

(k) **Penaethiaid Gwasanaeth**

Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol, trwy eu Timau Rheoli, am sicrhau bod y gweithlu'n ymwybodol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, gweithdrefnau gweithredol y gwasanaeth a bod pobl yn cael hyfforddiant ar lefel sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb.

Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sicrhau bod arferion recriwtio diogel yn cael eu mabwysiadu, yn enwedig mewn perthynas â gwirio geirdaon a, lle y bo'n berthnasol, gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

(l) **Rheolwyr Llinell a Goruchwylwyr**

Mae pob rheolwr llinell / goruchwylydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithlu y maent yn gyfrifol amdanynt (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth, ymgynghorwyr a gwirfoddolwyr) yn weithlu diogel. Rhaid i reolwyr ddilyn y Protocol Recriwtio a Dethol a Pholisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i sicrhau recriwtio diogel. Maent yn atebol am ddeall anghenion hyfforddi eu gweithlu a sicrhau bod trefniadau gweithredol priodol i bobl gael mynediad at yr hyfforddiant cywir. Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu holl weithlu yn ymwybodol sut i hysbysu ynghylch pryderon diogelu a phwy y dylent ei hysbysu. Rhaid i reolwyr sicrhau bod yr holl gyflogeion/gwirfoddolwyr/gweithwyr asiantaeth yn ymwybodol o'r polisïau allweddol fel y Polisi Diogelu Corfforaethol a Pholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.

Mae holl swydd ddisgrifiadau'r Cyngor yn cynnwys adran sy'n cyfeirio at ddiogelu ar gyfer swyddi perthnasol. Mae'r Cyngor yn nodi y bydd hysbysebion swyddi ar gyfer swyddi y mae gofyn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar eu cyfer yn cynnwys datganiad penodol ar ddiogelu.

Rhaid i reolwyr fynd ati'n rhagweithiol i ddadansoddi ble y mae'r risgiau i ddiogelu yn fwyaf tebygol o godi yn eu gwasanaeth(au) a sicrhau bod ganddynt weithdrefnau gweithredol priodol a systemau ategol ar waith i reoli'r rhain yn dda.

(m) **Gweithlu**

Rhaid i bob aelod o'r gweithlu:

- fod yn gyson effro i'r posibilrwydd o gam-drin ac esgeuluso a hysbysu am unrhyw bryderon ynghylch diogelwch a lles plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg.
- cymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu perthnasol a threfniadau gweithio-mewn-partneriaeth amlasiantaeth i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.
- bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau lleol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg a sut i hysbysu ynghylch pryderon.
- dilyn codau ymddygiad y cyflogwr ac unrhyw godau ymddygiad proffesiynol perthnasol.
- cael hyfforddiant diogelu a adnabuwyd ar gyfer rôl eu swydd.
- ymddwyn mewn ffordd sy'n ddiogel ac yn briodol i'w rôl a dilyn polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau gan yr Awdurdod neu sefydliadau neu gyrff

eraill sy'n berthnasol iddynt.

- helpu i hybu diogelu o fewn eu tîm ac i aelodau'r cyhoedd.
- cyflawni unrhyw rolau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn sy'n benodol i rôl eu swydd.

## 7. Adnabod a chodi pryderon am oedolyn neu blentyn lle ceir amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso.

Dylai pawb fod yn effro i'r posibilrwydd bod cam-drin yn digwydd. Gall unigolyn ddod yn bryderus am ddiogelwch neu les unigolyn mewn sawl ffordd:

- Efallai y bydd y person yn dweud wrthych.
- Efallai y bydd y person yn dweud rhywbeth sy'n eich poeni.
- Efallai y bydd trydydd parti yn lleisio pryderon.
- Efallai y byddwch yn gweld rhywbeth – digwyddiad neu anaf neu arwydd arall.

Er y bydd Cynghorwyr a gweithlu CBSP yn cael lefelau amrywiol o gyswllt â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg fel rhan o'u hymgysylltiad â'r Cyngor, dylai pawb fod yn ymwybodol o'r dangosyddion posibl o gam-drin ac esgeuluso a bod yn glir ynghylch beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Nid cyfrifoldeb i unrhyw unigolyn yw penderfynu a yw cam-drin wedi digwydd neu a yw unigolyn yn wynebu risg o niwed; fodd bynnag, mae ganddynt gyfrifoldeb i weithredu os oes ganddynt unrhyw bryderon.

**Hysbysu am bryderon ynghylch oedolion sy'n wynebu risg**

Dylid cymryd camau gweithredu ar unwaith i amddiffyn yr oedolyn sy'n wynebu risg os oes angen, a allai olygu cysylltu â'r gwasanaethau brys. Os nad oes angen gweithredu ar unwaith i amddiffyn yr oedolyn, dylai'r cyflogai roi gwybod i'w reolwr llinell neu berson dynodedig arall a hefyd, cwblhau **Ffurflen Atgyfeirio ar gyfer Oedolion sy'n Wynebu Risg (Atodiad B).** Dylid e-bostio atgyfeiriadau i adultsafeguardingmash@bridgend.gov.uk

Gellir cysylltu â'r Tîm Diogelu Oedolion i drafod pryderon gydag unigolion a bydd yn rhoi cyngor ar unrhyw gamau gweithredu y dylid eu cymryd wedyn.

Ffôn: 01656 642477

**Hysbysu am Bryderon ynghylch Plant a Phobl Ifanc sy'n wynebu risg**

Dylid gweithredu ar unwaith i amddiffyn y plentyn os oes angen, a allai olygu cysylltu â'r gwasanaethau brys. Dylid atgyfeirio unrhyw bryderon am ddiogelwch a lles plant a phobl ifanc at y **Tîm Asesu a Chyngor Cychwynnol (IAA) (Diogelu Plant), MASH.**

Ffôn: 01656 642320

E-bost: [mashcentra@bridgend.gov.uk](mailto:mashcentra@bridgend.gov.uk)

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth ar lafar a rhaid ei chyflwyno’n ysgrifenedig yn dilyn hynny gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio i wneud cais am gymorth sydd wedi'i chynnwys yn **Atodiad C.**

Os ceisir atgyfeiriad neu gyngor ychwanegol mewn perthynas â sefyllfa gyda phlentyn neu berson ifanc, rhaid i'r unigolyn gysylltu â'r Tîm Dyletswydd Argyfwng (EDT) y tu allan i oriau arferol ar:

Ffôn: 01443 743665

Lle mae’r unigolyn hefyd yn cael cyfarwyddyd gan y Tîm Dyletswydd Argyfwng i gwblhau ffurflen atgyfeirio, rhaid iddynt wneud hyn a'i hanfon i’r cyfeiriad e-bost uchod. Dylai'r ffurflen atgyfeirio gynnwys manylion y sgwrs a gafwyd gyda'r gweithiwr cymdeithasol yn y Tîm Dyletswydd Argyfwng, gan gynnwys dyddiad ac amser y sgwrs, yn ogystal ag enw'r gweithiwr cymdeithasol y siaradon nhw gyda hwy.

## 8. Cam-drin domestig a chyflogaeth

Gall trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gynnwys pob math o gam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol, a gall ddigwydd mewn perthnasoedd agos.

Nid yw cam-drin domestig yn fater preifat a gall effeithio'n fawr ar fywyd gwaith unigolyn.

Mae protocol y Cyngor ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a geir yn y Protocol Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol yn manylu ar ei ymrwymiad i ddarparu ymateb yn y gweithle i gam-drin a thrais domestig.

Mae'r protocol hwn, ynghyd â’r ddogfen Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol – Canllawiau i Reolwyr a Chyflogwyr, yn nodi'r camau gweithredu y gellir eu cymryd yn y gweithle i gefnogi cyflogeion a'u helpu i deimlo'n ddiogel yn y gwaith. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth ac yn cynyddu dealltwriaeth am risgiau a chanlyniadau yn y gweithle.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

2015 yn gosod dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i baratoi a chyhoeddi strategaethau sydd wedi'u bwriadu roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

I gyd-fynd â'r Ddeddf hon cyhoeddwyd fframwaith hyfforddi cenedlaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyflogeion mewn awdurdodau lleol gael hyfforddiant, sy'n briodol i'w rôl, sy'n ateb y gofynion a nodwyd. I'r rhan fwyaf o staff, bydd hyn yn golygu cwblhau modiwl lefel ymwybyddiaeth e-ddysgu.

## 9. Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd.

Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn diogelu a hybu lles oedolion a phlant sy'n wynebu risg.

Dylai cyflogeion geisio cyngor gan eu rheolwr llinell os oes ganddynt unrhyw amheuaeth, heb ddatgelu pwy yw'r person lle y bo'n bosibl.

Ceir saith rheol aur ar gyfer rhannu gwybodaeth a ddatblygwyd gan Lywodraeth EF, 2018, sef

1. Nid yw Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a chyfraith hawliau dynol yn rhwystrau i rannu gwybodaeth pan ellir cyfiawnhau hynny ond maent yn darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion byw yn cael ei rhannu'n briodol ac yn gyfreithlon.
2. Byddwch yn agored ac yn onest gyda'r unigolyn (a/neu eu teulu lle y bo'n briodol) o'r cychwyn cyntaf ynghylch pam y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu neu y gallai gael ei rhannu, pa wybodaeth, sut a chyda phwy a cheisiwch eu cytundeb, oni bai ei bod yn anniogel neu'n amhriodol gwneud hynny.
3. Ceisiwch gyngor gan ymarferwyr eraill, neu eich arweinydd llywodraethu gwybodaeth, os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch rhannu'r wybodaeth dan sylw, heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn lle y bo'n bosibl.
4. Lle y bo'n bosibl, rhannwch wybodaeth gyda chydsyniad, a lle y bo'n bosibl, parchwch ddymuniadau'r rhai nad ydynt yn cydsynio â rhannu eu gwybodaeth. O dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 gallwch rannu gwybodaeth heb gydsyniad os oes sail gyfreithlon i wneud hynny yn eich barn chi, megis lle gall diogelwch unigolyn fod mewn perygl. Bydd angen i chi seilio eich barn ar ffeithiau'r achos. Pan fyddwch yn rhannu gwybodaeth bersonol neu'n gofyn am wybodaeth bersonol gan rywun, byddwch yn glir ar ba sail yr ydych yn gwneud hynny. Lle nad oes gennych gydsyniad, byddwch yn ymwybodol efallai na fydd unigolyn yn disgwyl i wybodaeth gael ei rhannu.
5. Ystyriwch ddiogelwch a llesiant: seiliwch eich penderfyniadau rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau i ddiogelwch a llesiant yr unigolyn ac eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt.
6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, digonol, cywir, amserol a diogel: sicrhewch fod yr wybodaeth a rannwch yn angenrheidiol at y diben yr ydych yn ei rhannu ar ei gyfer, yn cael ei rhannu dim ond gyda'r unigolion hynny y mae angen iddynt ei chael, ei bod yn gywir ac yn gyfredol, ei bod yn cael ei rhannu mewn modd amserol, a'i bod yn cael ei rhannu'n ddiogel (gweler yr egwyddorion).
7. Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – boed i rannu

gwybodaeth ai peidio. Os penderfynwch rannu, yna cofnodwch hynny.

*Detholwyd o Weithdrefnau Diogelu Cymru*

## 10. Sicrhau Ansawdd

(a) Adrodd a Monitro

Mae gan y Cyngor fecanweithiau cynhwysfawr ar gyfer swyddogion a Chynghorwyr, sy'n darparu fframwaith llywodraethu a ategir gan system adrodd ar berfformiad sy'n dryloyw, ar-lein ac sy'n gallu darparu gwybodaeth ar gyfer craffu heriol gan Swyddogion, Cynghorwyr a Rheoleiddwyr.

Ar lefel gorfforaethol, mae'r cyfrifoldeb am fonitro effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol ar draws y Cyngor yn cael ei gyflawni gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol (BRhC) sy'n adrodd wrth CBRhC.

Bydd adroddiad ar effeithiolrwydd diogelu corfforaethol yn cael ei lunio o leiaf yn flynyddol ar gyfer y Cabinet a'r Swyddogaeth Graffu. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad diogelu'r Cyngor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynghorwyr graffu ar weithgarwch diogelu'r Cyngor a'i herio.

Dylai unrhyw oblygiadau ar gyfer diogelu mewn adroddiadau a baratoir ar gyfer Aelodau Etholedig fod yn glir mewn adroddiadau i Bwyllgorau Craffu, y Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet a'r Cyngor.

(b) Hunanwerthuso

Yn unol â Pholisi Diogelu'r Cyngor, disgwylir i bob cyfarwyddiaeth sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg, plant, pobl ifanc a theuluoedd neu sy'n gweithio gyda'r rhain gynnal archwiliad o'u harferion diogelu, yn seiliedig ar broses o hunanwerthuso. Mae'r offeryn hunanwerthuso wedi'i gynnwys fel **Atodiad D**. Mae wedi'i fwriadu i roi dealltwriaeth i bob cyfarwyddiaeth am ddiogelu yn eu maes gwasanaeth/tîm o staff eu hunain a sut y gellid datblygu'r rhain. Yn ogystal â hyn, mae'r hunanwerthusiadau a gwblheir yn rhoi trosolwg i'r Cyngor o arferion diogelu ledled y sir. Mae'r offeryn archwilio'n seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

(c) Rheoli Risg, Archwilio Mewnol a Rheoleiddwyr Allanol

Gall prosesau rheoli risg ac archwilio mewnol roi sicrwydd bod trefniadau lleol yn gweithio'n effeithiol ac fel a fwriadwyd, adnabod meysydd i'w gwella a pha un a oes risgiau y mae angen eu lliniaru. Gyda'i gilydd, mae rheoli risg ac archwilio mewnol yn rhannau hanfodol ac annatod o fframwaith sicrwydd Cyngor. Gallant hefyd:

- roi sicrwydd bod gweithdrefnau a gweithgareddau yn cael eu profi'n gadarn a chadarnhau bod systemau'n addas ar gyfer y diben.
- sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol.
- rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol.

Bydd y tîm  Archwilio Mewnol yn adolygu diogelu ar sail gylchol yn unol â'u proses gynllunio ac asesu risg arferol ynghyd â holl wasanaethau eraill y Cyngor a allai fod yn destun adolygiad archwilio.

Lle ceir materion sy'n peri pryder o ran darparu gwasanaethau, honiad o dwyll, dwyn neu lygredigaeth neu ddiffyg cydymffurfio sylweddol â pholisi gan y Cyngor, bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r tîm Archwilio Mewnol i asesu ai hwy yw'r mecanwaith priodol i ymchwilio ymhellach i'r mater. Os yw'r ddau barti'n cadarnhau bod hyn yn briodol, bydd y tîm Archwilio Mewnol yn cynnal ymchwiliad arbennig.

Bydd y Cyngor yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a adnabuwyd gan reoleiddwyr allanol priodol ac mae'n ddyletswydd ar CBRhC i sicrhau bod hunanwerthuso cydlynol a chynhwysfawr yn digwydd ac y cymerir camau canlyniadol lle y bo angen i oruchwylio gwelliannau.

## 11. Gweithlu diogel

(a) Recriwtio, dethol a rheoli'r gweithlu

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i arferion recriwtio diogel ac mae'n cydnabod bod hyn yn cyd-fynd â dull corfforaethol ar y cyfan o ddiogelu ar draws ystod o swyddogaethau y mae angen iddynt weithredu gyda'i gilydd i fod yn effeithiol.

Mae'r Protocol Recriwtio a Dethol a'r Canllawiau i Reolwyr  yn nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth ymgymryd ag unrhyw weithgarwch recriwtio a dethol. Mae hyn yn cynnwys fetio cyn cyflogaeth sy'n cynnwys canfod hanesion cyflogaeth llawn; profi pwy yw unigolion; geirdaon boddhaol; asesiad iechyd; gwirio cymwysterau; gwiriadau lloches a mewnfudo; a gwiriadau cofnodion troseddol gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ystyrir bod gan unrhyw berson sy'n gyfrifol am weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg neu sy'n gweithio gyda hwy mewn unrhyw gymhwyster, boed yn gyflogedig neu'n ddi-dâl, ddyletswydd gofal tuag atynt yn gyfreithiol ac yn gytundebol ac fel dinesydd moesol cyfrifol. Mae hwn yn ofyniad hanfodol ym mhob swydd-ddisgrifiad. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i ymddwyn mewn modd nad yw'n bygwth pobl, yn eu niweidio nac yn eu rhoi mewn perygl o ddioddef niwed a achosir gan eraill.

Mae gan bob aelod o'r gweithlu gyfrifoldeb i ymddwyn yn eu bywydau preifat mewn modd nad yw'n peryglu eu sefyllfa yn y gweithle nac yn bwrw amheuaeth ar eu haddasrwydd i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg.

Dylai pob aelod o'r gweithlu:

- Fod yn effro i'r posibilrwydd o niwed, cam-drin ac esgeuluso
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu perthnasol a threfniadau gweithio amlasiantaeth i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg
- Bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau lleol ar gyfer diogelu a dilyn Cod Ymddygiad y Cyngor a chodau proffesiynol eraill sy'n berthnasol iddynt
- Hysbysu ynghylch unrhyw bryderon am ddiogelwch neu les plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg. Mae'r ddyletswydd i hysbysu'n ofyniad cyfreithiol.

(b) Hyfforddiant

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo ymrwymiad i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth weithio gydag oedolion neu blant sy'n wynebu risg a'r gofyniad i hysbysu ynghylch pryderon.

Mae pob rheolwr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff, gwirfoddolwyr ac unigolion sy'n gwneud lleoliadau gwaith yn cael hyfforddiant diogelu priodol. Mae hyn yn berthnasol i bob aelod o'r gweithlu, boed yn barhaol neu dros dro,

Bydd disgwyl i'r holl weithlu wneud yr holl hyfforddiant sy'n berthnasol i'r swydd sydd ganddynt ac adnewyddu eu cymwysterau neu gofrestriadau proffesiynol fel sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch i'r gweithlu cyfan.

Mae pob aelod o'r gweithlu'n gyfrifol am eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus eu hunain ac am sicrhau bod eu hyfforddiant diogelu yn gyfredol ac wedi'i ddiweddaru. Bydd cydymffurfiaeth â safonau hyfforddiant diogelu yn cael ei monitro gan y BRhC.

Mae cyfleoedd hyfforddi unigol a rhyngasiantaethol mwy arbenigol ar gael i'r rhai sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg ar lefel sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldebau. Ceir gwybodaeth am hyfforddiant ar Dudalennau Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (PDGGC) ar y Wefan Dysgu a Datblygu Corfforaethol. http://bridgend.learningpool.com/

Pe bai aelod o staff yn dymuno penodi gwirfoddolwr, lle y bo'n briodol, byddant yn dilyn y Weithdrefn Recriwtio a geir ym Mholisi a Gweithdrefn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar Ddefnyddio Gwirfoddolwyr 2023.
Rhaid i'r holl oruchwylwyr sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ymwybodol o Bolisi Diogelu Corfforaethol CBSP a bod ganddynt fynediad ato. Bydd y Cyngor yn cwblhau datgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar unrhyw wirfoddolwr a fydd, yn ystod eu penodiad, yn cael mynediad sylweddol heb oruchwyliaeth at blant a phobl ifanc o dan 16 oed ac oedolion sy'n wynebu risg a hynny'n rheolaidd. Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddiogelu lles y rhai sy'n cael mynediad at ein gwasanaethau trwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn effeithiol ac mae dyletswydd gofal statudol arno tuag at aelodau agored i niwed o'r gymdeithas. Mae gwiriadau cofnodion troseddol yn un rhan o arfer recriwtio cadarn ac fe'u cynhelir gyda gwiriadau cyn cyflogaeth eraill, i asesu addasrwydd unigolyn.

Mae'r Polisi ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn berthnasol i gyflogeion, gwirfoddolwyr, lleoliadau gwaith ac aelodau etholedig. Yn ogystal â hynny, mae darpariaethau'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ofalwyr maeth a darpar rieni mabwysiadol, lleoliadau myfyrwyr, trefniadau trwyddedu a chludiant i ysgolion ac unrhyw swyddi eraill sy'n gwneud gweithgaredd a reoleiddir. Hefyd, mae'n berthnasol i'r rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan gyrff llywodraethu.

Mae mesurau perfformiad y cyngor mewn perthynas â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gwirio cydymffurfiaeth a hyfforddiant diogelu gorfodol i wella'r wybodaeth am berfformiad a gyflwynir i'r swyddogaeth graffu a chynorthwyo tryloywder fel a ganlyn:

- Gwell ymwybyddiaeth ymhlith staff o bolisi diogelu, ac arweinwyr diogelu.
- Gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn cael eu deall ar draws y sefydliad.
- Nifer y pryderon a'r atgyfeiriadau a gynhyrchwyd gan dimau anarbenigol y Cyngor.
- Pob disgrifiad swydd yn cynnwys diogelu fel cyfrifoldeb allweddol ar gyfer yr holl swyddi staff.
- Hyfforddiant diogelu gorfodol a gwblhawyd gan staff ac Aelodau Etholedig.

Mae'r polisi ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn darparu rhagor o wybodaeth am drefniadau sy'n berthnasol i'r rhai nad ydynt yn cael eu cyflogi na'u hurio'n uniongyrchol gan y Cyngor.

(d) Honiadau neu bryderon am gyflogeion.

Mae ystod o bolisïau a chanllawiau yn eu lle sy'n annog ac yn cynorthwyo staff i godi pryderon am ddiogelwch a llesiant oedolion a phlant sy'n wynebu risg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor a Pholisi Chwythu'r Chwiban ar gyfer (Ysgolion) sy'n rhoi arweiniad i staff ynghylch cyflwyno pryderon am gyflogeion/contractwyr eraill neu am y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu.

Mae Polisi Disgyblu'r Cyngor (Canllawiau Disgyblu i Reolwyr) yn cydnabod, mewn rhai sefyllfaoedd, y gallai achos disgyblu olygu bod angen rhoi gweithdrefnau adrannol penodol ar waith er mwyn ymdrin â materion o natur benodol e.e. diogelu oedolion a phlant sy'n wynebu risg ac ati.

O dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006) ceir dyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio gwybodaeth at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw unigolyn yn cael ei ddiswyddo neu ei dynnu i ffwrdd oddi wrth waith gyda phlant a/neu oedolion (yn yr hyn a ddiffinnir yn gyfreithiol fel Gweithgaredd a Reoleiddir) oherwydd eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio gwybodaeth. Mae dyletswydd ar y Cyngor i atgyfeirio gwybodaeth at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel darparwr gweithgareddau a reoleiddir ac fel awdurdod lleol. Yn yr un modd, mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i atgyfeirio gwybodaeth benodol am ymddygiad cyflogeion a materion sy'n ymwneud â diogelu at gyrff rheoleiddio proffesiynol fel Gofal Cymdeithasol Cymru a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

(e) Honiadau/ Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai sydd mewn Swyddi Cyfrifol.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith, naill ai mewn cymhwyster cyflogedig neu mewn cymhwyster gwirfoddol, yn dod â hwy i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg. Mae hefyd yn cynnwys unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu am oedolion neu blant ac arnynt angen gofal a chymorth ac y mae eu cyflogaeth neu eu gwaith gwirfoddol yn dod â hwy i gysylltiad ag oedolion neu blant sy'n wynebu risg.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cefnogi gweithdrefnau disgyblu mewnol ac yn

darparu canllawiau i ymdrin yn briodol ag unrhyw bryderon neu honiadau am gam-drin proffesiynol, esgeuluso, neu niwed. Nod y gweithdrefnau yw sicrhau yr ymdrinnir â phob honiad am gam-drin a wneir yn erbyn staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg mewn modd teg, cyson ac amserol.

Y prif ffactor sy'n cael ei ystyried wrth gymhwyso'r gweithdrefnau hyn yw a yw'r unigolyn sy'n destun yr honiad neu'r pryder, mewn swydd gyfrifol; ystyr hyn yw lle mae aelod o'r gweithlu mewn swydd lle mae ganddynt bŵer neu ddylanwad dros blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn rhinwedd y gwaith neu natur y gweithgaredd a gyflawnir.

Mae dyletswydd ar y Cyngor i reoli honiadau a phryderon am unrhyw berson sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn ardal y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gweithlu'r Cyngor a gweithlu asiantaethau partner a gwirfoddolwyr. Rhaid i'r Cyngor benodi uwch reolwr sy'n atebol am honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol a'r rhai sydd mewn swydd gyfrifol, i ddod yn Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO).

Mae rheoli achosion o dan y gweithdrefnau hyn yn berthnasol i ystod ehangach o honiadau na'r rhai lle mae achos rhesymol dros gredu bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed. Mae hefyd yn berthnasol i bryderon a allai ddynodi bod person yn anaddas i barhau i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg yn eu swydd bresennol neu mewn unrhyw gymhwyster. Dylid ei ddefnyddio ym mhob achos lle honnir y canlynol am berson sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg:

- Eu bod wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio neu a allai fod wedi niweidio plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg
- Y gallent fod wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg neu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg
- Eu bod wedi ymddwyn tuag at blentyn, plant neu oedolion sy'n wynebu risg mewn ffordd sy'n dynodi nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant ac oedolion

## 12. Diogelu plant mewn addysg

Mae Adran 175 Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a gynhelir fod â threfniadau i ddiogelu a hybu lles plant.

Rhaid i gyrff llywodraethu a staff ysgolion gydymffurfio â'r canllawiau wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am ddiogelu a hybu lles plant.

Fel a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae dyletswydd i hysbysu'r Swyddog Arweiniol dynodedig ar gyfer Diogelu yn yr Awdurdod Lleol am yr holl bryderon ynghylch diogelu.

Rhaid i ysgolion fod â Pholisi Diogelu a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan gorff llywodraethu'r ysgol. Datblygwyd polisi enghreifftiol i'w ddefnyddio gan ysgolion ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, sef Polisi Diogelu Ysgolion CTM.

Rhaid i bolisi diogelu ysgol gydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru rhif

272/2021, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, sy'n nodi rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002.

## 13. Gwasanaethau Diogel

(a) Trefniadau Comisiynu

Bydd gofyn i ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau i blant neu oedolion sy’n wynebu risg ddarparu manylion eu polisi a'u gweithdrefnau diogelu i sicrhau bod y gwasanaeth yn addas ar gyfer y diben a bod ganddo'r trefniadau angenrheidiol i ddiogelu pobl.

Bydd gweithgarwch monitro contractau, naill ai wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio, yn cynnwys argyhoeddi’r Cyngor bod y darparwr yn rheoli ei gyfrifoldebau o ran diogelu a'i fod yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth, polisi a gweithdrefnau. Lle y bo’n ofynnol, byddir yn gofyn am gadarnhad o berfformiad y gwasanaethau o ran arferion recriwtio diogel, gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac atgyfeiriadau diogelu.

(b) Gosodiadau a Llogi

Gyda bron pob gosodiad achlysurol ni fydd y Cyngor yn contractio gwasanaethau llogwyr. Er hynny, bydd y Cyngor yn caniatáu i'w safle gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau a allai gynnwys plant, pobl ifanc neu oedolion sy’n wynebu risg. Felly, mae dyletswydd ar reolwyr adeiladau i sicrhau, hyd y bo'n rhesymol, bod y gweithgareddau hyn hefyd yn cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu. Gall aelodau o'r cyhoedd dybio'n rhesymol, oherwydd bod gweithgaredd yn digwydd o fewn un o leoliadau’r Cyngor, bod y Cyngor wedi rhoi sylw dyladwy i ddiogelu wrth ymrwymo i'r trefniant. Wrth ganiatáu defnyddio safleoedd y Cyngor, mae'n rhaid i'r cyfrifoldeb aros gyda’r llogwr i sicrhau bod mesurau diogelu’n cael eu cynnal drwyddi draw. Mae hyn yn rhywbeth y mae sefydliadau'n cael eu gwneud yn ymwybodol ohono o dan ddeddfwriaeth diogelu a thrwy gorff llywodraethu eu sefydliad eu hunain, os yw'n berthnasol.

## 14. Cyfathrebu a'r cyfryngau

Bydd penderfyniadau ynghylch rhyddhau gwybodaeth sy'n ymwneud â materion diogelu, er enghraifft negeseuon i staff, datganiadau i'r wasg ac ati yn cael eu gwneud gan CBRhC a dylai'r tîm cyfathrebu fod yn rhan o hynny. Ni ddylai unrhyw aelod o staff gysylltu â'r wasg yn uniongyrchol na phostio gwybodaeth gan ddefnyddio’r rhyngrwyd.

### Defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol

Yn unol â'r Protocol ar gyfer defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol mae gan gyflogeion gyfrifoldeb i ymddwyn yn eu bywydau preifat mewn modd nad yw'n peryglu eu sefyllfa yn y gweithle nac yn bwrw amheuaeth ar eu haddasrwydd i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion sy’n wynebu risg. Mae'r protocol yn ei le ac mae'n cynnwys cyfrifoldebau cyflogeion wrth ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol naill ai at ddefnydd personol neu at ddefnydd proffesiynol.

## 15. Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau a rheoliadau perthnasol a/neu unrhyw ddeddfwriaeth, canllawiau a rheoliadau perthnasol newydd a gyflwynwyd, a chanllawiau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## ATODIAD A –

### CYFRIFOLDEBAU GRŴP DIOGELU CORFFORAETHOL PEN-Y-BONT AR OGWR

*1. Sicrhau bod holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion diogelu allweddol mewn perthynas â phlant ac oedolion.*

*2. Sicrhau bod pob cyfarwyddiaeth o fewn y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfraniad at gadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn ddiogel ac yn rhydd rhag niwed neu gamdriniaeth.*

*3. Cytuno, gweithredu, ac adolygu camau gweithredu eglur ar gyfer y grŵp o fewn cynllun gweithredu blynyddol wedi'i gadarnhau.*

*4. Cynorthwyo Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni eu dyletswyddau diogelu ehangach.*

*5. Adolygu a datblygu safonau a pholisi diogelu corfforaethol perthnasol.*

*6. Cynorthwyo'r Adran Adnoddau Dynol i gyflawni proses Recriwtio Mwy Diogel cadarn (gan gynnwys y gweithlu gwirfoddol) a honno'n cynnwys gofynion fetio a gwahardd allweddol a datblygu'r gweithlu.*

*7. Darparu Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol, sy'n nodi perfformiad yr holl Gyfarwyddiaethau, mewn perthynas â fetio a gwahardd, hyfforddiant diogelu ar gyfer staff, a gweithrediad gwasanaethau rheng flaen o ran eu heffeithiolrwydd wrth adnabod ac atgyfeirio pryderon diogelu.*

*8. Datblygu a chynnal cofrestr risgiau diogelu, gan nodi meysydd eglur lle ceir risg i ddiogelu, a chytuno sut y bydd y risgiau'n cael eu rheoli o fewn yr awdurdod a chan bwy.*

*9. Adolygu, datblygu a monitro mesurau perfformiad diogelu corfforaethol.*

*10. Sicrhau bod hyfforddiant diogelu'n cael ei hyrwyddo a'i fandadu ar draws pob Cyfarwyddiaeth o fewn yr awdurdod.*

*11. Cynghori'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac argymell camau gweithredu perthnasol mewn perthynas â safonau a pholisi diogelu corfforaethol.*

*12. Hyrwyddo arfer diogelu effeithiol ar draws y Cyfarwyddiaethau yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth a chasglu data, ymwybyddiaeth weithredol reng flaen, hyfforddiant staff ac ymgysylltu â phartneriaethau ehangach.*

*13. Cael ac ystyried argymhellion a gwersi o Adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion / Dynladdiad Domestig.*

## Atodiad B

**<u>Ffurflen Atgyfeirio Oedolyn sy’n Wynebu Risg – Cyfrinachol</u>**

| | |
|---|---|
| Dyddiad rhybuddio / codi’r pryder: | |
| Dyddiad y digwyddiad(au): | |
| Dyddiad y’i cafwyd gan RhAD: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1. Manylion Oedolyn sy’n Wynebu Risg** | Rhif Adnabod y Cleient / Claf: | | |
| Cyfenw: | | Enw Cyntaf: | |
| Dyddiad geni: | | Oedran: | |
| Rhywedd: | Gwryw □ Benyw □ | | |
| Cyfeiriad: | | Cod post | |
| Rhif Ffôn: | | Ethnigrwydd: | |
| Angen cyfieithydd ar y pryd? | Oes □ Nac oes □ | Iaith a Ffefrir: | |
| Enw a Chyfeiriad Meddyg Teulu | | Rhif Ffôn Meddyg Teulu: | |
| A oes gan yr oedolyn sy'n wynebu risg afiechyd / anabledd neu anghenion penodol? | □ Anabledd Corfforol/Henoed Bregus<br>□ Anabledd Dysgu<br>□ Iechyd Meddwl Swyddogaethol<br>□ Iechyd Meddwl Organig (Dementia)<br>□ Colled Golwg/Dall/Gweld yn Rhannol<br>□ Colled Clyw/Byddar<br>□ Problemau Camddefnyddio Sylweddau | | |
| A yw'r oedolyn sy’n wynebu risg yn ddarostyngedig i unrhyw bwerau deddfwriaethol? E.e., Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Deddf Iechyd Meddwl, Pŵer Atwrnai | | | |
| Perthynas Agosaf: | | Perthynas: | |
| Cyfeiriad: | | | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| A oes unrhyw bobl eraill sy’n wynebu risg yn byw yn yr eiddo? | | | |
| Rhowch fanylion unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'u gofal. | | | |

| | |
|---|---|
| Pa gamau sydd wedi'u cymryd i ddiogelu'r oedolyn sy'n wynebu risg? | |

| **2. Caniatâd / Galluedd yr Oedolyn sy'n Wynebu Risg** | Cynhwyswch fanylion unrhyw asesiadau diweddar o alluedd. |
|---|---|
| A yw'r oedolyn sy'n wynebu risg yn cael unrhyw anhawster cyfathrebu? (Esboniwch) | |
| A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oes gan yr oedolyn sy'n wynebu risg alluedd meddyliol i gydsynio â'r atgyfeiriad hwn? | |
| A yw'r oedolyn sy'n wynebu risg wedi cydsynio â'r atgyfeiriad hwn? Os nad ydynt, esboniwch y rhesymau pam. | |
| Os oes gan yr oedolyn sy'n wynebu risg alluedd, a ydynt yn rhoi cydsyniad i rannu eu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill? | □ Heddlu<br><br>□ Iechyd<br><br>□ Prawf |
| Beth yw barn a dymuniadau'r oedolyn sy'n wynebu risg? | |
| A oes rheswm er budd cyhoeddus tra phwysig dros rannu'r pryder hwn heb gydsyniad? Esboniwch. | |

| **3. Ynglŷn â'r cam-drin honedig** | | |
|---|---|---|
| Math o gam-drin honedig: | □ Corfforol<br>□ Rhywiol<br>□ Emosiynol/Seicolegol<br>□ Ariannol<br>□ Esgeuluso | |
| Lleoliad y cam-drin honedig | □ Cartref Ei Hun<br>□ Cartrefi Gofal Preswyl<br>□ Tenantiaeth â Chymorth<br>□ Ysbyty<br>□ Lle Cyhoeddus<br>□ Cynllun Cysylltu Bywydau<br>□ Arall | □ Cartref Perthynas<br>□ Cartref Gofal Nyrsio<br>□ Cartref y Cyflawnwr<br>□ Gofal Dydd<br>□ Llety Gwarchodol<br>□ Sefydliad Addysgol |

| | |
|---|---|
| | *Lleoliad penodol E.e. Ward/Cartref Gofal............................ |
| A yw'r cam-drin | □ Yn gyfredol □ Yn hanesyddol |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad o'r cam-drin honedig / anafiadau: (Cwblhewch y map o'r corff os yw'n berthnasol) | |
| A oes unrhyw risgiau pellach? Os oes, esboniwch. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4. Manylion y cyflawnw(y)r a amheuir** | | | |
| Cyfenw: | | Enw Cyntaf: | |
| Dyddiad Geni: | | Oedran: | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post: | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Perthynas â'r oedolyn sy'n wynebu risg | | | |
| A yw'r cyflawnwr yn oedolyn sy'n wynebu risg? Os ydyw, esboniwch pam | | | |
| Os yw'r cyflawnwr yn oedolyn sy'n wynebu risg, a oes ganddynt alluedd i ddeall eu gweithredoedd? | | | |
| Galwedigaeth: | | Cyflogwr | |
| A yw'r cyflawnwr honedig yn ymwybodol o'r atgyfeiriad? | Ydy □ Nac ydy □ | | |

Cyflawnwr ychwanegol □ (agorwch flwch cyflawnwr newydd)

| **5. Manylion Tyst(ion)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfenw: | | Enw cyntaf: | |
| Dyddiad Geni: | | Oedran: | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post: | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Galwedigaeth: | | | |
| Perthynas â'r oedolyn sy'n wynebu risg: | | | |
| A yw'r tyst yn oedolyn sy'n wynebu risg? Os ydyw, esboniwch pam. | | | |



Tyst ychwanegol □ (agorwch flwch tyst newydd)

| **6. Pwy sydd wedi codi'r pryder?** | Y person cyntaf y datgelwyd y pryder wrthynt gyntaf yw hyn – gall fod yn aelod o'r teulu, yn dyst, neu'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r oedolyn sy'n wynebu risg. |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | | |
| Dyddiad Geni: | | Oedran: | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post: | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Galwedigaeth: | | Cyflogwr: | |
| Perthynas â'r oedolyn sy'n wynebu risg: | | | |
| A yw'r hysbyswr yn dymuno aros yn ddienw? Os ydynt, esboniwch pam. (Nid yw'n cynnwys gweithwyr proffesiynol) | | | |

| **7. Pwy sy'n cyflwyno'r VA1?** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | | |
| Manylion Galwedigaeth / Cyflogwr: | | | |
| Cyfeiriad: | | Cod Post: | |
| Rhif Ffôn: | | | |
| Dyddiad / Amser a cyflwyno | | | |

| 8. Gwybodaeth Ychwanegol | |
| --- | --- |
| | |

| Rhowch fanylion unrhyw anafiadau, marciau, cleisiau, clwyfau ac ati: |
| --- |
| Defnyddiwch yr adran hon i nodi ble y mae unrhyw farciau, cleisiau, clwyfau ac ati.   |

## Atodiad C

## Adroddiad (atgyfeiriad) diogelu Plant

# Adroddiad Diogelu

**Os oes angen copi Cymraeg arnoch o'r ffurflen Cais am Gymorth, neu os byddai'n well gennych i'r Asesiad gael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, cysylltwch â'r blwch post Cymorth Cynnar**

**Sylwer: lle ceir pryderon diogelu bydd y ffurflen hon yn cael ei rhannu gyda'r Gwasanaethau Plant heb gydsyniad, yn unol â Rhwymedigaethau Statudol. Ar gyfer atgyfeiriadau Cymorth Cynnar mae gofyn cael cydsyniad ar gyfer atgyfeirio ac ni fydd y ffurflen yn cael ei derbyn heb gydsyniad. Cwblhewch y ffurflen mor llawn â phosibl.**

| 1. Manylion yr Ymarferydd/Unigolyn sy'n Gwneud yr Atgyfeiriad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw | | Teitl Swydd | | Asiantaeth/Tîm | |
| Dyddiad yr Atgyfeiriad | | Amser | | Ffôn/<br>E-bost | |

| 2. Manylion y Plentyn/Person Ifanc *(ychwanegwch unrhyw enwau ychwanegol ar ddalen ar wahân)* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw Cyntaf | Cyfenw | Oedran | DG/DED | Cyfeiriad | Rhywedd | Ethnig-rwydd | Iaith 1af | Crefydd |
| | | | | | | | | |

| 3. Rheswm dros yr Atgyfeiriad | |
|---|---|
| Amlinellwch eich pryderon am y plentyn hwn/plant hyn a beth yw eich tystiolaeth<br><br>(Gweithdrefnau Diogelu Cymru) | (Rhowch fanylion) |
| Ydych chi'n teimlo bod y plentyn yn wynebu risg o niwed a bod angen eu hamddiffyn e.e. corfforol, emosiynol, rhywiol neu esgeuluso?<br><br>(Gweithdrefnau Diogelu Cymru) | (Rhowch fanylion) |
| A oes pryderon am alluoedd rhianta eu gofalwyr? | (Rhowch fanylion) |

| | |
|---|---|
| Rhowch fanylion unrhyw gymorth sydd wedi bod yn cael ei roi neu sy'n cael ei roi ar hyn o bryd. E.e. teulu, asiantaethau, Cymorth Cynnar, Iechyd neu Wasanaethau Plant ac ati.... | (Rhowch fanylion) |
| Beth sy'n mynd yn dda i'r plentyn / person ifanc? e.e. perthnasoedd cadarnhaol ag oedolion, beth sy'n mynd yn dda (teulu, ysgol, cymuned), cyfeillgarwch â chyfoedion, ymgysylltu â dysgu, diddordebau, gobeithion, uchelgeisiau, golygwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o'r hunan, datryswr problemau da, ac ati. | (Rhowch fanylion) |
| Beth ydych chi'n meddwl y mae ei angen ar y teulu er mwyn newid? h.y. cymorth ymddygiad, cymorth ariannol | (Rhowch fanylion) |
| A oes unrhyw rwystrau / risgiau i gyflawni'r deilliannau a ddymunir | (Rhowch fanylion) |
| A yw'r gofalwr/ Plentyn yn ymwybodol o'r atgyfeiriad hwn? | Ydy/Nac ydy |
| A geisiwyd cydsyniad? | Do/Naddo<br><br>Os Na wnaed hynny, Pam? |
| Barn y Rhiant / Plentyn (a ydych chi wedi trafod yr atgyfeiriad hwn gyda'r rhiant/plentyn), os felly, pa ddeilliannau y maent yn dymuno eu cyflawni? | Rhowch fanylion...... |

## 4. Prif Ofalwyr y Plentyn(Plant)/Person (Pobl) Ifanc

| Cyfenw'r Gofalwr | Enw Cyntaf y Gofalwr | Perthynas â'r plentyn | Cyfrifoldeb Rhiant? | Rhywedd | DG/oedran | Ethnigrwydd os yw'n hysbys | Crefydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

| Rhowch gyfeiriad(au) y gofalwr yma os yw'n wahanol i un y plentyn/plant: | Cod (au) Post | Ffôn/Symudol |
|---|---|---|
| | | |

## 5. Aelodau Eraill o'r Aelwyd neu Bobl Arwyddocaol ym Mywyd y Plentyn/Person Ifanc *(lle y bo'n hysbys)*

| Enw Cyntaf | Cyfenw | DG/oedran | Cyfeiriad | Rhywedd | Ethnigrwydd os yw'n hysbys | Perthyn as â'r plentyn | Crefydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| A oes unrhyw anghenion cyfathrebu/cyfieithu ar y pryd ar gyfer y plentyn a/neu'r teulu? | (Rhowch fanylion) |
| A oes gan y plentyn a/neu'r teulu anabledd neu anghenion iechyd penodol? | *(Rhowch fanylion)* |

## Atodiad D

**Fframwaith Hunanasesu Diogelu Corfforaethol**

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

### Cyflwyniad

Mae'r fframwaith hunanasesu canlynol wedi'i nodi mewn tair adran sy'n ymdrin â thair safon a adnabuwyd sy'n sail i ddiogelu ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob maes gwasanaeth feddwl am eu harferion a'u gweithdrefnau eu hunain yn eu lleoliadau perthnasol. Mae wedi'i fwriadu i roi dealltwriaeth am sut y mae thema diogelu'n cael ei chyflawni'n llwyddiannus mewn maes gwasanaeth penodol ar hyn o bryd, a sut y gellir datblygu hyn. Hefyd, mae'r hunanasesiad yn rhoi trosolwg i'r Cyngor o arferion diogelu ar draws ei holl feysydd gwasanaeth a gall sicrhau bod cydymffurfiaeth a dyletswyddau diogelu yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Bydd y data o hunanasesiadau blynyddol yn rhan annatod o oleuo'r broses o gynllunio gwasanaethau gan felly wella'r deilliannau llesiant i ddinasyddion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dylai'r hunanasesiadau gael eu cwblhau'n flynyddol a byddant yn ystyried y cyfnod treigl blaenorol o 12 mis.

### Tair Safon ar gyfer Diogelu

1. Bod â pholisi ac arferion cadarn.

Pa mor gadarn yw gweithgarwch diogelu eich maes gwasanaeth? A yw polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu mabwysiadu ac yn cael eu defnyddio? Ydych chi'n cwblhau prosesau recriwtio mwy diogel ac yn cydymffurfio â gofynion hyfforddi/archwiliadau/arolygiadau/adrodd?

2. Pa mor ddiogel yw'r amgylchedd yr ydych chi'n ei ddarparu?

Pa mor ddiogel mae eich maes gwasanaeth yn teimlo i breswylwyr sy'n defnyddio eich gwasanaethau ac i'ch staff sy'n gweithio yn eich maes gwasanaeth? Gan ystyried pethau fel awyrgylch/adeiladau/e-ddiogelwch/rhannu gwybodaeth/cwynion a chanmoliaeth?

3. Pa mor effeithiol yw eich diwylliant tuag at ddiogelu?

Pa mor effeithiol yw ymagwedd eich maes gwasanaeth at ddiogelu? Ydych chi'n gweithio'n effeithiol gydag eraill i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg ac yn hyrwyddo lles preswylwyr yn gyffredinol, e.e. trwy wasanaethau a gomisiynir/cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â staff a gwirfoddolwyr i wreiddio diogelu mewn ymarfer ac ym mhrosesau cynllunio'r maes gwasanaeth?

### Canllawiau ar gwblhau'r Fframwaith Hunanasesu

Mae'r offeryn archwilio'n offeryn hunanasesu sy'n cwmpasu'r tair safon. Ym mhob un o'r safonau, ceir mesurau y dylech ddarparu tystiolaeth yn eu herbyn i ddangos pa mor

effeithiol y mae eich maes gwasanaeth yn ateb gofynion hynny ar hyn o bryd, a ble y gellir gwneud gwelliannau. Ceir enghreifftiau byr o’r dystiolaeth y gellir ei darparu yn erbyn pob maen prawf ac nid rhestr sy’n nodi isafswm y disgwyliadau ydyw ond yn hytrach enghraifft eglurhaol. Eich cyfrifoldeb chi fel y rheolwr gwasanaeth yn eich maes chi yw darparu'r dystiolaeth gywir yn erbyn y mesurau gofynnol i ddangos sut y cânt eu cyflawni'n effeithiol. Rhowch sgôr CAG iddynt os gwelwch yn dda fel a amlinellir isod, gan ystyried yr arferion a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Sylwch efallai y bydd angen i chi feddwl am eich safleoedd/lleoliadau lluosog wrth ateb y cwestiynau yr ydych yn gyfrifol amdanynt, a bydd rheolwyr gwasanaethau eraill yn darparu'r wybodaeth mewn perthynas â'u maes hwy. Bydd y ffurflenni'n cael eu coladu i ddarparu hunanwerthusiad cyfunol ar gyfer y maes gwasanaeth cyfan.

Byddwch yn benodol yn eich archwiliad ynghylch pa wasanaeth sy'n cael ei archwilio neu y cyfeirir ato os oes materion penodol a nodir yn y maes hwnnw. Dylai'r archwiliad gofnodi’r prif sgôr CAG ar gyfer perfformiad cyffredinol eich maes, ac os nodir mater penodol ar gyfer gwasanaeth penodol, dylid cofnodi hyn o fewn y "Camau Gweithredu Pellach sy'n Ofynnol" o ran sut y bwriedir mynd i’r afael â hyn.

Sicrhewch eich bod wedi caniatáu digon o amser i ymgynghori â'r holl reolwyr tîm perthnasol/cymorth busnes/aelodau o staff sy'n ofynnol neu a allai fod â rhagor o wybodaeth mewn perthynas â maes gwasanaeth penodol.

**System Raddio’r Hunanasesiad**

Mae'r system goleuadau traffig canlynol yn ymwneud â sut y mae maes gwasanaeth yn asesu ei hun o ran cyrraedd y safonau gofynnol a nodir. Os rhoddwyd sgôr o Ambr neu Goch i faes, rhaid i chi gwblhau'r blwch camau gweithredu pellach sy’n ofynnol gyda'r hyn sy'n angenrheidiol i wella'r sgôr yma yn eich tyb chi. Os nad ydych yn siŵr pa fesurau y mae angen iddynt fod ar waith, dywedwch fod angen cyngor pellach gan y tîm Diogelu Corfforaethol i symud ymlaen.

Ar ddiwedd pob safon, mae lle i fyfyrio ynghylch y mesurau a rhoi naratif ynghylch ble mae eich gwasanaeth yn gwneud yn dda o ran diogelu a ble y gallwch wella, ynghyd ag unrhyw gymorth ychwanegol y mae ei angen arnoch i wreiddio arferion diogelu o fewn eich timau.

Mae gwyrdd yn golygu bod popeth yn ei le, yn gyfredol ac yn cyrraedd y safon isaf sy’n ofynnol.

Mae ambr yn golygu bod gofyn adolygu neu wella rhywbeth.

Mae coch yn golygu bod gofyn datblygu neu wella rhywbeth fel mater o frys neu fod angen mynd i'r afael â'r mesur ar unwaith.

Unwaith y bydd y ffurflenni wedi cael eu cwblhau, dylid eu dychwelyd erbyn y dyddiad gofynnol i'r Swyddog Diogelu Corfforaethol

Aliah Awan-Williams Aliah.Awan-Williams@bridgend.gov.uk

**Offeryn Hunanasesu Diogelu CBSP**

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddiaeth a Maes Gwasanaeth | |
| Enw'r Person sy'n cwblhau'r Hunanasesiad hwn | |
| Rôl/Swydd | |
| Dyddiad Cwblhau | |
| Rhestrwch yr holl wasanaethau unigol yr ydych yn gyfrifol amdanynt ac yn adrodd arnynt yn yr hunanasesiad hwn. | |

| Safon 1: Bod â pholisi ac arferion cadarn | | | |
|---|---|---|---|
| **Meini prawf** | **Tystiolaeth** | **Sgôr CAG** | **Camau Gweithredu Pellach sy'n Ofynnol** |
| 1.1 Polisïau a gweithdrefnau diogelu cyfredol yn eu lle | *Polisïau corfforaethol* | | |
| 1.2 Hyfforddiant diogelu cyfredol yn ei le a'r maes gwasanaeth yn cael mynediad ato | *Rhaglen sefydlu a chyrsiau corfforaethol ar gael* | | |
| 1.3 A yw eich gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant diogelu sylfaenol ar gyfer dechreuwyr newydd, staff presennol a gwirfoddolwyr? | *Data ar nifer y cyrsiau a gwblhawyd gan gynnwys ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, GDPR a gofalwyr.* | | |
| 1.4 A oes prosesau recriwtio mwy diogel yn eu lle? | *Mae angen gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob aelod o staff a gwirfoddolwr os ydynt yn ymwneud â gweithgarwch a reoleiddir. Mae'r rhai sy'n recriwtio wedi gwneud hyfforddiant priodol ac ati.* | | |
| 1.5 Mae gwiriadau'r | *Cadarnhau a yw'r holl wiriadau* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer pob swydd berthnasol. | *gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol* | | |
| 1.6 Lle defnyddir gwirfoddolwyr, a ydynt yn cael eu cofrestru'n ganolog gyda'r adran Adnoddau Dynol i sicrhau bod hyfforddiant diogelu a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. | *Darparu rhestrau a ddiwedderir yn rheolaidd ar gyfer yr adran Adnoddau Dynol lle y bo'n berthnasol* | | |
| 1.7 Mae Swyddog Diogelu Dynodedig penodol ym mhob gwasanaeth/lleoliad yn eich maes gwasanaeth. | *Y SDD penodol a dyddiadau hyfforddiant* | | |
| 1.8 Mae gan eich maes Hyrwyddwr Diogelu penodol sy'n lledaenu cyfathrebiadau perthnasol ynghylch diogelu ar draws y gwasanaeth. | *Cadarnhad o'r unigolyn a pha brosesau y maent yn eu dilyn i rannu gwybodaeth.* | | |
| 1.9 Mae rheolwyr a staff yn gwybod sut i ymdrin â honiadau yn erbyn gweithwyr a gwirfoddolwyr a phwy ddylid eu hysbysu yn eu cylch. | *Nifer y digwyddiadau/ hysbysiadau a gyflwynwyd gan y gwasanaeth i SDALl* | | |
| 1.10 Gall staff adnabod pan fydd oedolion neu blant yn wynebu risg neu pan fydd arnynt angen cymorth ychwanegol ac maent yn gwybod at bwy i wneud atgyfeiriad. | *Faint o atgyfeiriadau a wnaed at bartneriaid perthnasol am gymorth ychwanegol.* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.11 A oes unrhyw archwiliadau diogelu wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf yn eich maes gwasanaeth? Beth oedd y canlyniad? | *Nifer yr archwiliadau* | | |
| Cyfle i fyfyrio: Beth ydych chi'n dda am ei wneud? Beth allwch chi ei wella? Gyda beth y mae angen cymorth arnoch? | | | |

| Safon 2: Pa mor ddiogel mae eich maes gwasanaeth yn teimlo i breswylwyr sy'n defnyddio eich gwasanaethau ac i'ch staff sy'n gweithio yn eich maes gwasanaeth? | | | |
|---|---|---|---|
| **Meini prawf** | **Tystiolaeth** | **Sgôr CAG** | **Camau Gweithredu Pellach sy'n Ofynnol** |
| 2.1 Mae dinasyddion sy'n defnyddio eich gwasanaeth yn cael eu gwneud yn ymwybodol o bolisi a gweithdrefnau diogelu a sut y cânt eu cymhwyso yn y lleoliad hwn. | *Mae Polisi a Gweithdrefnau ar gael yn hygyrch ar-lein ac ar gael ar gais.* | | |
| 2.2 Mae'r Swyddog Diogelu Dynodedig penodol ar gyfer pob maes gwasanaeth yn cael ei arddangos yn glir ac mae'n hygyrch. | *Enw'r SDD yn weladwy* | | |
| 2.3 Mae staff ar draws yr holl wasanaethau yr ydych chi'n eu darparu'n gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng sy'n ymwneud â | *Mae hyfforddiant diogelu'n orfodol ac mae'n cynnwys ble i hysbysu am wybodaeth a chael mynediad at* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| phlentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg a phwy i geisio cyngor ganddynt ynghylch gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelu. | *wybodaeth am ddiogelu.* | | |
| 2.4 Cedwir cofnodion o bawb sy'n ymweld â'r gwasanaeth ac sydd ar y safle. | *Mae bathodynnau'n cael eu rhoi a'u gwirio. Llofnodi i mewn/allan? Teledu Cylch Cyfyng?* | | |
| 2.5 Mae polisi a gweithdrefn ar waith ynghylch goruchwylio ymwelwyr/gwasanaethau/contractwyr sy'n mynychu eich gwasanaeth a/neu asesiad risg o weithio heb oruchwyliaeth mewn ardaloedd. | *Polisi a Gweithdrefnau yn eu lle?* | | |
| 2.6 Mae asesiadau risg yn eu lle wrth ddefnyddio safleoedd nad ydynt yn rhai arferol i chi ac mae system ar gyfer hysbysu am unrhyw ddiffygion | *Enwau'r polisi a'r weithdrefn* | | |
| 2.7 Mae rhannu gwybodaeth am blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn cael ei wneud yn saff, yn ddiogel a chan gynnal cyfrinachedd. | *Disgrifiwch sut y mae atgyfeiriadau neu gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â pholisi ac asesiadau risg* | | |
| 2.8 Mae polisi yn ei le ynghylch defnydd diogel o'r rhyngrwyd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc. | *Enw'r polisi/ y weithdrefn.* | | |
| 2.9 Faint o gwynion yn eich maes gwasanaeth a fu'n gysylltiedig â rhesymau diogelu. | *Dylech gynnwys nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer pryderon proffesiynol a wnaed gan eich maes gwasanaeth. Cynhwyswch* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *adborth a roddwyd gan ddinasyddion am wasanaethau, staff, gwirfoddolwyr ac ati.* | | |
| Cyfle i fyfyrio: Beth ydych chi'n dda am ei wneud? Beth allwch chi ei wella? Gyda beth y mae angen cymorth arnoch? | | | |

| Safon 3: Pa mor effeithiol yw ymagwedd eich maes gwasanaeth at ddiogelu? | | | |
|---|---|---|---|
| **Meini prawf** | **Tystiolaeth** | **Sgôr CAG** | **Camau Gweithredu Pellach sy'n Ofynnol** |
| 3.1 Os ydych chi'n defnyddio gwasanaethau a gomisiynwyd, a allwch chi ddangos tystiolaeth bod pob gwasanaeth yn darparu safon ddiogelu sy'n gyson â'n safon ni? | *Pa wasanaethau sy'n cael eu comisiynu, a oes unrhyw wasanaethau wedi cael eu dirwyn i ben oherwydd diffyg cydymffurfio neu faterion gyda safonau yn ystod y 12 mis diwethaf.* | | |
| 3.2 Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant priodol i ddeall eu hatebolrwydd a'u cyfrifoldebau | *Mae staff yn gwybod pwy yw'r SDD a'r hyrwyddwr diogelu a phwy sy'n gyfrifol am wneud atgyfeiriadau at y tîm diogelu a beth i'w wneud mewn argyfwng.* | | |
| 3.3 Mae staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r holl ddiweddariadau a newidiadau i | *Cyfathrebu gan yr hyrwyddwr diogelu/briffio staff/cyfarfodydd tîm* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ddeddfwriaeth a pholisi diogelu a sut mae hyn yn effeithio ar eich maes gwasanaeth. | | | |
| 3.4 Sut y mae canllawiau a hyfforddiant yn cael eu darparu i staff ar weithio gydag eraill a rhannu gwybodaeth. Mae staff yn ymwybodol o'r hyn y gellir ac na ellir ei rannu gydag eraill. | *Data hyfforddiant GDPR ac enwau polisïau.* | | |
| 3.5 Mae cydsyniad i rannu gwybodaeth a phan nad oes angen cydsyniad yn cael sylw mewn hyfforddiant ac mewn goruchwyliaeth fel arfer safonol. | *Polisi a Gweithdrefn yn eu lle a thrwy hyfforddiant diogelu.* | | |
| 3.6 Mae cynllunio strategol yn ystyried yr angen i ddiogelu pawb a hybu lles ac rydym yn myfyrio ar yr hyn sy'n mynd yn dda a meysydd i'w gwella ac yn ymgorffori gwersi newydd yn ein prosesau cynllunio. | *Tystiolaeth o gynlluniau blaenoriaeth, ymgyngoriadau, cwynion a chanmoliaeth, archwiliadau ac adroddiadau arolygu, asesiadau risg ac adolygiadau o gontractau a gomisiynwyd.* | | |
| Cyfle i fyfyrio: Beth ydych chi'n dda am ei wneud? Beth allwch chi ei wella? Gyda beth y mae angen cymorth arnoch? | | | |

## Atodiad E

**Diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i ddiogelu oedolion sy’n wynebu risg**

**Oedolyn**
Person sy'n 18 oed neu drosodd (a3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

**Oedolyn sy’n wynebu risg**

Oedolyn sy’n cael, neu sy’n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso ac y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p’un a yw’r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o’r anghenion hynny ai peidio), ac nad yw’n gallu, o ganlyniad i’r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu’r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso (adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

Sy’n Wynebu Risg

Mae defnyddio'r term hwn yn golygu nad oes angen i gam-drin neu esgeuluso gwirioneddol fod wedi digwydd; yn hytrach, dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn oedolyn sy’n wynebu risg o gael eu cam-drin er mwyn atal cam-drin ac esgeuluso gwirioneddol.

Cam-drin:

- Gall fod yn gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (mae’n cynnwys dwyn, twyll, pwysau am arian, camddefnyddio arian)
- Gall ddigwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn annedd breifat, sefydliad neu unrhyw le arall.

Esgeuluso:

Mae hyn yn disgrifio methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person). Gall ddigwydd mewn ystod o leoliadau, fel annedd breifat, darpariaeth gofal preswyl neu ddarpariaeth gofal dydd.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhain yn restrau cynhwysfawr, ond fe'u darperir i gynnig rhai dangosyddion a allai rybuddio person am gam-drin neu esgeuluso posibl mewn oedolyn (Gweithdrefnau Diogelu Cymru)

Gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer 'Arwyddion a Dangosyddion Posibl o Gamdriniaeth ac Esgeulustod mewn Oedolyn sy’n Wynebu Risg**.**

**Dyletswydd statudol i hysbysu.**

At ddibenion Gweithdrefnau Diogelu Cymru, byddir yn cymryd bod dyletswydd i hysbysu'r awdurdod lleol yn golygu atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol sydd, ochr yn ochr â'r heddlu, â phwerau statudol i ymchwilio i amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso.

Dylid hysbysu pryd bynnag y ceir pryderon am oedolyn sy'n wynebu risg, (diffinnir oedolyn sy’n wynebu risg uchod (a126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

Os oes gan unrhyw berson wybodaeth, pryderon neu amheuon bod oedolyn yn dioddef camdriniaeth, wedi dioddef camdriniaeth neu'n debygol o fod yn wynebu risg o gael eu cam-drin, eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu (Gweithdrefnau Diogelu Cymru).

## Atodiad F

**Diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i ddiogelu plant sy'n wynebu risg.**

### Plentyn

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau sy'n cyd-fynd â hi'n diffinio 'plentyn' fel person dan 18 oed.

### Plentyn sy'n wynebu risg

Mae A.130 (4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio plentyn sy'n wynebu risg fel plentyn:

1. Sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.
2. Y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Mae'n bwysig nodi:

- Bod defnyddio'r term 'sy'n wynebu risg' yn golygu nad oes angen i gam-drin neu esgeuluso gwirioneddol ddigwydd; yn hytrach, dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn plentyn sy'n wynebu risg er mwyn atal niwed, cam-drin ac esgeuluso gwirioneddol.
- Bod y ddau amod sy'n angenrheidiol i ddangos bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso'n sicrhau yr amddiffynnir y rhai ag anghenion gofal a chymorth y mae arnynt *hefyd* angen camau i sicrhau eu diogelwch yn y dyfodol.
- Y gall risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso fod o ganlyniad i un pryder neu o ganlyniad i ffactorau cronnol.

### Niwed

- Camdriniaeth sy'n cynnwys cam-drin rhywiol, esgeuluso, cam-drin emosiynol a cham-drin seicolegol.
- amhariad ar iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys yr hyn a ddioddefir o weld neu glywed person arall yn dioddef camdriniaeth).
- amhariad ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol (gan gynnwys yr hyn a ddioddefir o weld neu glywed person arall yn dioddef camdriniaeth).

### Mathau o niwed

Mae'r canlynol yn rhestr nad yw'n gynhwysfawr o enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau o niwed, cam-drin ac esgeuluso a gynhwysir yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg

- **Cam-drin corfforol** - taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth ormodol, neu sancsiynau amhriodol.
- **Cam-drin emosiynol/seicolegol** - bygythiadau o niwed neu adael, rheolaeth gymhellol, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu allan o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, bod yn dyst i achosion o gam-drin eraill;
- **Cam-drin rhywiol** - gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu heb fod yn dreiddiol; gweithgareddau heb gyswllt, megis cynnwys plant yn y broses o wylio, neu gynhyrchu deunyddiau pornograffig, neu wylio gweithgareddau rhywiol; annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol;
- **Cam-drin ariannol** - bydd y categori hwn yn llai cyffredin ar gyfer plentyn ond dyma ddangosyddion posibl:
    - peidio â diwallu ei anghenion am ofal a chymorth a roddir trwy daliadau uniongyrchol; neu
    - gwynion bod eiddo personol ar goll.
- **Esgeuluso** - methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at nam ar iechyd neu ddatblygiad.

**Niwed sylweddol**

Pryderon am niwed sylweddol tebygol neu wirioneddol i blentyn yw'r trothwy ar gyfer cychwyn [ymholiadau a47 o dan Ddeddf Plant 1989]

Nid oes diffiniad statudol o niwed sylweddol. Felly, rhaid i ymarferwyr ystyried y canlynol:

*'Pan fo'r cwestiwn a yw niwed yn sylweddol yn seiliedig ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, dylid cymharu iechyd neu ddatblygiad y plentyn â'r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl wrth ystyried plentyn tebyg'* Deddf Plant 1989 (Adran 31(9))

**Dyletswydd statudol i hysbysu.**

At ddibenion y canllawiau statudol, byddir yn cymryd bod dyletswydd i hysbysu'r awdurdod lleol yn golygu atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol sydd, ochr yn ochr â'r heddlu, â phwerau statudol i ymchwilio i amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso.

Defnyddir y term ymarferydd fel term cyffredinol i ddisgrifio unrhyw un sydd mewn cyflogaeth â thâl yn ogystal â gwirfoddolwyr di-dâl.

Rhaid cyflwyno hysbysiad pryd bynnag y mae gan ymarferydd bryderon am blentyn dan 18 oed sydd:

- sy’n cael, neu sy’n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed **ac**
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p’un a yw’r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o’r anghenion hynny ai peidio).

Os oes gan unrhyw berson wybodaeth, pryderon neu amheuon bod plentyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o wynebu risg o niwed, eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu sydd â dyletswyddau a phwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen.

## Atodiad G

### Mathau eraill o niwed

Gall risg o niwed gwirioneddol neu bosibl arall i blentyn neu oedolyn ddeillio o’r canlynol hefyd:

### Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)

Mae camfanteisio’n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin rhywiol a all gynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn; cynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant hyd at 18 oed.

Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid. Gall y cyfnewid gynnwys rhoi rhywbeth neu ei dynnu'n ôl, megis tynnu trais neu fygythiadau i gam-drin person arall yn ôl.

Efallai y bydd hwylusydd sy'n cael rhywbeth yn ychwanegol at neu yn lle'r plentyn y camfanteisir arno.

Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd y plant yn teimlo eu bod wedi rhoi cydsyniad.

### Camfanteisio’n Droseddol ar Blant (CCE)

Mae camfanteisio’n droseddol ar blant yn fath o gam-drin plant, sy'n cynnwys camfanteisio troseddol ac sy'n galw am ymateb diogelu.

Mae plant (y rhai hyd at 18 oed) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol gan gynnwys symud cyffuriau neu arian, sy'n arwain at elw personol i unigolyn, grŵp neu gang sy’n cyflawni troseddau cyfundrefnol.

Mae'n cynnwys hudo a/neu rym. Mae’n cynnwys elfen o gyfnewid a gall ddal i fod yn gamfanteisio hyd yn oed os yw'r gweithgaredd i’w weld fel pe bai’n gydsyniol. Gall gynnwys grym a/neu ddulliau sy’n seiliedig ar hudo i sicrhau cydymffurfiaeth ac mae’n aml yn cynnwys trais neu fygythiadau o drais hefyd. Nodweddir camfanteisio’n droseddol ar blant gan ryw fath o anghydbwysedd grym o blaid y rhai sy'n camfanteisio.

### Radicaleiddio mewn Plant

Gall plant fod yn agored i wahanol safbwyntiau a chael gwybodaeth o ffynonellau amrywiol. Efallai y bydd rhai o'r safbwyntiau hyn yn cael eu hystyried yn radical neu'n eithafol.

Radicaleiddio yw'r broses lle mae pobl yn dod i gefnogi delfrydau gwleidyddol, crefyddol neu ddelfrydau eraill sy'n fwyfwy eithafol. Gall hyn eu harwain i gefnogi eithafiaeth dreisgar a therfysgaeth.

Gall unrhyw un gael ei radicaleiddio, ond mae ffactorau fel bod yn hawdd dylanwadu arnynt a chreu argraff arnynt yn gwneud plant a phobl ifanc yn arbennig o agored i

niwed.

Efallai y bydd gan blant sy'n wynebu risg o gael eu radicaleiddio hunan-fri isel neu efallai y byddant yn ddioddefwyr bwlio neu wahaniaethu. Efallai y byddant yn teimlo:

- wedi'u hynysu ac yn unig neu eisiau perthyn.
- yn anhapus amdanynt hwy eu hunain a'r hyn y gallai eraill ei feddwl ohonynt.
- embaras neu eu bod yn cael eu barnu am eu diwylliant, rhywedd, crefydd neu hil.
- dan straen neu'n isel eu hysbryd.
- eu bod wedi cael llond bol o gael eu bwlio neu eu trin yn wael gan bobl eraill neu gan gymdeithas.
- yn ddig wrth bobl eraill neu'r llywodraeth
- yn ddryslyd ynghylch yr hyn maen nhw'n ei wneud.
- dan bwysau i sefyll dros bobl eraill sy'n cael eu gormesu.

Nid yw radicaleiddio'n digwydd dros nos. Mae'n broses raddol, felly efallai na fydd pobl ifanc yr effeithir arnynt yn sylweddoli beth sy'n digwydd.

**Radicaleiddio mewn Oedolion**

Gall oedolion fod yn agored i radicaleiddio. Un o'r nodweddion cyffredin ar radicaleiddio yw nad yw'r oedolyn yn adnabod natur gamdriniol yr hyn sy'n digwydd ac nad yw'n ei ystyried ei hun yn ddioddefwr ymgais i feithrin perthynas amhriodol neu gamfanteisio.

**Hunan-Radicaleiddio**

Gall pobl 'hunan-radicaleiddio', trwy ddarllen neu wrando ar lenyddiaeth neu siaradwyr eithafol. Yn fwy cyffredin, efallai y bydd unigolyn neu grŵp yn mynd ati i geisio perswadio eraill i fabwysiadu eu barn.

Mae'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael eu defnyddio gan unigolion neu grwpiau i hyrwyddo eu syniadaeth a recriwtio neu radicaleiddio pobl. Mae'r rhyngrwyd yn creu mwy o gyfleoedd i bobl gael eu radicaleiddio, gyda chyfathrebu ar y rhyngrwyd ac wyneb yn wyneb yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd yn y broses radicaleiddio, gyda gweithgarwch ar-lein yn galluogi deialog barhaus i ddigwydd.

Mae'r broses radicaleiddio'n unigryw i bob person sy'n mynd drwyddi, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd yn achosi niwed difrifol.

**Atal**

Mae adran 26 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol, wrth arfer ei swyddogaethau, i roi "sylw dyladwy i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn derfysgaeth".

Mae Prevent yn rhan o strategaeth gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU, CONTEST, sy'n amcanu at leihau'r risg i'r DU a'i dinasyddion a'i buddiannau dramor o ganlyniad

i derfysgaeth. Yn ganolog i Prevent mae diogelu plant ac oedolion a darparu ymyrraeth gynnar i amddiffyn pobl a'u dargyfeirio i ffwrdd rhag cael eu tynnu i mewn i weithgaredd terfysgol.

Mae Prevent yn canolbwyntio ar y bygythiad sylweddol a berir gan derfysgaeth ryngwladol a'r rhai yn y DU sy'n cael eu hysbrydoli ganddi. Mae hefyd yn ymwneud â lleihau bygythiadau, risgiau a gwendidau a achosir gan eithafwyr domestig.

Mae gan Prevent dri amcan:

1. mynd i'r afael ag achosion radicaleiddio ac ymateb i her ideolegol terfysgaeth.
2. diogelu a chefnogi'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu radicaleiddio trwy ymyrraeth gynnar, gan eu hadnabod a chynnig cymorth.
3. galluogi'r rhai sydd eisoes yn ymwneud â therfysgaeth i ymddieithrio ac adsefydlu.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am Prevent a gwrthderfysgaeth ar wefan Y Bartneriaeth Diogelwch cymunedol - CBS Pen-y-bont ar Ogwr

**Anffurfio organau cenhedlu benywod**

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yn weithdrefn lle mae organau cenhedlu benywod yn cael eu torri, eu hanafu neu eu newid yn fwriadol, ond heb reswm meddygol dros wneud hyn; yn hytrach mae'n arfer traddodiadol, diwylliannol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y GIG:

Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) – y GIG

Fe wnaeth Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 y weithred hon yn drosedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (mae gan yr Alban ei chyfraith ei hun ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod); mae'n drosedd naill ai cyflawni'r weithred yn y DU neu fynd â merch dramor i'w chyflawni. Diwygiwyd y gyfraith gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, a ychwanegodd bwerau ychwanegol at Ddeddf 2003.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, athrawon a darlithwyr i hysbysu'r heddlu os cânt wybod gan blentyn bod gweithred anffurfio organau cenhedlu benywod wedi cael ei chyflawni arnynt, neu os ydynt yn sylwi ar arwyddion corfforol o anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae'r ddyletswydd yn ddyletswydd bersonol ac ni ellir ei throsglwyddo i berson arall. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol dan y Ddeddf a dylid ei ateb ochr yn ochr â'r weithdrefn ddiogelu.

Gorfodaeth i Hysbysu am Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod – gwybodaeth weithdrefnol

**Priodas dan Orfod**

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn ei gwneud yn drosedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gorfodi rhywun i briodi. (Mae'n drosedd yng Ngogledd Iwerddon o dan ddeddfwriaeth ar wahân).

Mae priodas dan orfod yn un sy'n digwydd heb gydsyniad llawn a rhydd y naill barti neu'r llall neu'r ddau barti a gall gynnwys gorfodi menywod a dynion i briodi.

Mae hyn yn cynnwys:

- mynd â rhywun dramor i'w orfodi i briodi (p'un a yw'r briodas dan orfod yn digwydd ai peidio)
- priodi rhywun nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio â'r briodas (p'un a ydynt dan bwysau ai peidio)

Mae priodas dan orfod yn drosedd gudd, lle mae teuluoedd a chymunedau'n cydgynllwynio, gan gredu eu bod yn cynnal y traddodiadau diwylliannol ac yn gwarchod 'anrhydedd' teuluol a chymunedol. Mae teuluoedd yn credu eu bod yn amddiffyn eu plant rhag perthnasoedd 'anaddas' neu eu bod yn creu teuluoedd cryfach ac yn gwarchod credoau diwylliannol neu grefyddol.

Yn 2007, cyflwynodd Llywodraeth y DU Orchmynion Amddiffyn Sifil rhag Priodas dan Orfod trwy Ddeddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007. O dan y Ddeddf hon, gall person sydd dan fygythiad o briodas dan orfod wneud cais i'r llys am Orchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod (FMPO) a all gynnwys pa bynnag ddarpariaethau a fyddai'n briodol ym marn y llys i atal y briodas dan orfod rhag digwydd, neu i amddiffyn dioddefwr priodas dan orfod rhag ei heffeithiau a gall gynnwys mesurau megis atafaelu pasbort neu gyfyngiadau ar gyswllt â'r dioddefwr.

Gall unrhyw berson sydd dan fygythiad o briodas dan orfod wneud cais neu gall unrhyw ymarferydd wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod, ar eu rhan. Ceir rhagor o wybodaeth am briodas dan orfod a gorchmynion amddiffyn rhag priodas dan orfod ar y wefan Forced marriage - GOV.UK.

**Caethwasiaeth Fodern / Masnachu mewn Pobl**

Ystyr caethwasiaeth fodern yw camfanteisio'n anghyfreithlon ar bobl er budd personol neu fasnachol. Mae'n cwmpasu ystod eang o fathau o gam-drin a chamfanteisio, gan gynnwys, ymhlith eraill, camfanteisio rhywiol, caethwasiaeth ddomestig, llafur dan orfod, camfanteisio troseddol a chynaeafu organau.

Gall dioddefwyr caethwasiaeth fodern fod o unrhyw oed, rhyw, cenedligrwydd ac ethnigrwydd. Maent yn cael eu twyllo neu eu bygwth i weithio ac efallai y byddant yn teimlo na allant adael neu hysbysu am y trosedd am eu bod ofn neu'n cael eu dychrynu. Efallai na fyddant yn cydnabod eu hunain fel dioddefwr.

Gall caethwasiaeth fodern yn y DU fod ar sawl ffurf, gan gynnwys camfanteisio rhywiol dan orfod, caethwasiaeth ddomestig neu lafur dan orfod ar ffermydd, ar safleoedd adeiladu, mewn siopau, bariau, bariau ewinedd, lleoedd golchi ceir neu ffatri weithgynhyrchu.

Llafur dan orfod yw'r math mwyaf cyffredin o gaethwasiaeth yn y DU. Math cynyddol o gaethwasiaeth yw masnachu i fod yn rhan o droseddu, fel masnachu cyffuriau trwy 'linellau cyffuriau' neu orfodaeth i weithio ym maes cynhyrchu canabis.

**Arwyddion o gaethwasiaeth.** Gallai rhywun mewn caethwasiaeth:

- ymddangos fel pe bai o dan reolaeth rhywun arall ac yn gyndyn o ryngweithio ag eraill.
- bod heb unrhyw fanylion adnabod personol
- bod heb ryw lawer o eiddo personol, gwisgo'r un dillad bob dydd neu wisgo dillad anaddas ar gyfer gwaith.
- peidio â gallu symud o gwmpas yn rhydd.
- bod yn gyndyn o siarad â dieithriaid neu'r awdurdodau.
- ymddangos yn ofnus, yn dawedog, neu ddangos arwyddion o gam-drin corfforol neu seicolegol.
- cael eu danfon a'u casglu ar gyfer gwaith yn yr un ffordd bob amser, yn enwedig ar adegau anarferol, h.y., yn gynnar iawn neu'n hwyr yn y nos.

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i hysbysu lle mae unrhyw berson yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hadnabod fel rhywun sydd dan amheuaeth o fod yn ddioddefwr caethwasiaeth neu fasnachu pobl. Mae'r "ddyletswydd i hysbysu" wedi'i nodi yn Adran 52 *Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015*

Ceir rhagor o wybodaeth am gaethwasiaeth fodern ar gael ar wefan y Llywodraeth Modern slavery - GOV.UK

**Trosedd Casineb / Digwyddiad Casineb.**

Gellir defnyddio'r term **trosedd casineb** i ddisgrifio ystod o fathau o ymddygiad troseddol lle mae'r cyflawnwr yn cael ei ysgogi gan elyniaeth neu'n dangos gelyniaeth tuag at anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol y dioddefwr.

Gelwir yr agweddau hyn ar hunaniaeth unigolyn yn 'nodweddion gwarchodedig'. Gall trosedd casineb gynnwys cam-drin geiriol, dychrynu, bygythiadau, aflonyddu, ymosod a bwlio, yn ogystal â difrod i eiddo. Gall y cyflawnwr hefyd fod yn ffrind, gofalwr neu gydnabod sy'n manteisio ar eu perthynas â'r dioddefwr er budd ariannol neu at ryw ddiben troseddol arall.

Mae **digwyddiad casineb** yn golygu unrhyw ddigwyddiad nad yw'n drosedd sydd, yn nhyb y dioddefwr, neu unrhyw un arall, yn seiliedig ar ragfarn rhywun tuag atynt oherwydd eu hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oherwydd eu bod yn drawsryweddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am Droseddau Casineb (gan gynnwys sut i hysbysu am drosedd casineb) ar wefan Y Bartneriaeth diogelwch cymunedol – CBS Pen-y-bont ar Ogwr

**Trais a cham-drin domestig**

Y diffiniad trawslywodraethol o drais a cham-drin domestig yw:

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy’n cynnwys ymddygiad rheolaethol, gorfodaethol, bygythiol, trais neu gam-drin rhwng y rhai 16 oed neu drosodd sydd yn, neu sydd wedi bod yn, bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu ni waeth beth fo'u rhywedd na’u rhywioldeb. Gall y cam-drin gwmpasu’r mathau canlynol ymhlith eraill:

- seicolegol
- corfforol
- rhywiol
- ariannol
- emosiynol

**Cam-drin domestig a phobl ifanc**

Gall pobl ifanc yn y grŵp oedran 16 i 17 hefyd fod yn ddioddefwyr trais a cham-drin domestig.

**Ymddygiad rheolaethol**

Ystyr ymddygiad rheolaethol yn ystod o weithredoedd sydd wedi'u bwriadu i wneud person yn israddol a/neu'n ddibynnol trwy eu hynysu o ffynonellau cymorth, manteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, eu hamddifadu o'r modd y mae ei angen ar gyfer annibyniaeth, i wrthsefyll ac i ddianc a rheoleiddio eu hymddygiad pob dydd.

**Ymddygiad gorfodaethol**

Ystyr ymddygiad gorfodaethol yw gweithred neu batrwm o weithredoedd ymosod, bygwth, bychanu a dychrynu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn eu dioddefwr.

Mae trosedd Ymddygiad Rheolaethol neu Orfodaethol wedi'i gynnwys yn Adran 76 Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Gellir ei gosbi ag uchafswm o 5 mlynedd o garchar, dirwy neu'r ddau. Gall dioddefwyr sy'n profi ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol sy'n brin o drais corfforol difrifol, ond sy'n gyfystyr â cham-drin seicolegol ac emosiynol eithafol, ddod â'u cyflawnwyr o flaen eu gwell.

Gallwch gael gwybod pa gymorth y gall y Cyngor ei gynnig i bobl sy'n profi cam-drin domestig ar wefan CBSP.

## Atodiad H

**Cofrestr Risgiau Diogelu Corfforaethol**

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

Cyflwyniad

1.1 Mae'r gofrestr risgiau Diogelu Corfforaethol hon yn nodi'r risgiau allweddol i allu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i wireddu ei weledigaeth i gyflawni trefniadau Diogelu Corfforaethol sydd wedi'u gwreiddio.

1.2 Mae'r risgiau wedi’u categoreiddio o ran eu tebygolrwydd a'u heffaith.

1.3 Y nod yw rheoli pob risg i leihau'r tebygolrwydd a/neu'r effaith, trwy roi mesurau ar waith i gefnogi a chyflawni trefniadau llywodraethu cadarn mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol.

1.4 Yn ogystal â'r risgiau a nodir yn y gofrestr hon, ceir risgiau gweithredol a reolir o fewn Cyfarwyddiaethau’r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn y drefn honno.

1.5 Mae'r holl risgiau ar draws y Cyngor yn cael eu hadolygu o bryd i’w gilydd.

1.6 Mae risgiau’n newid dros amser – mae rhai newydd yn dod i'r amlwg, neu mae risgiau presennol yn dod yn arwyddocaol oherwydd ffactorau allanol neu fewnol. Mae'r Gofrestr Risgiau Diogelu Corfforaethol hon yn ddogfen fyw; mae’n cael ei hadolygu, ei monitro a'i ddiweddaru’n rheolaidd.

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cofrestr Risgiau Diogelu Corfforaethol

| Dyn-odwr y Risg | Ceir risg y bydd. | Canlyniadau'r risg | Sgôr grai'r risg | | | Dyddiad neill-tuo'r Sgôr | Dull rhe-oli | Sut y mae'r Cyngor yn Ymdrin â'r risg hon? | Camau gweithredu allweddol i'w sefydlu DS nid yw gweith-garwch busnes fel arfer yn cael ei adlewyrchu yma. | Gan bwy | Adolygiad Erbyn pryd | Cwblhau'r Cam Gweithredu Erbyn pryd | Sgôr Risg Gweddillol | | | Polisi corffor-aethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Teb ygo lrw ydd | effaith | Cyfanswm | | | | | | | | Tebygol-rwydd | effaith | Cyf-an-swm | |
| 1 | | | | | | | | | . | | | | | | | |